Aelodaeth o'r grŵp llywio

Ym mis Hydref 2025, penodwyd Dr Clenton Farquharson CBE a Sharon Brennan yn gyd-gadeiryddion Adolygiad Timms, i weithio ochr yn ochr â'r Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd, Syr Stephen Timms.

Gyda'i gilydd, daeth y cyd-gadeiryddion â phrofiad byw o anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor, a phrofiad proffesiynol o sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, budd-daliadau anabledd a chyflogaeth, ochr yn ochr â phrofiad uniongyrchol amrywiol o lywio'r systemau hyn. Penodwyd y cyd-gadeiryddion cyn y grŵp llywio i helpu i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr Adolygiad, sefydlu'r broses gyd-gynhyrchu, a rhedeg yr ymgyrch mynegi diddordeb i recriwtio'r grŵp llywio.

Roedd dros 340 o geisiadau ar gyfer y grŵp llywio a phenodwyd 12 aelod ohono ym mis Ionawr 2026. Penodwyd aelodau yn erbyn meini prawf cyhoeddedig a gynlluniwyd i ddod ag ystod eang o brofiad byw, arbenigedd proffesiynol a safbwyntiau ynghyd gan gynnwys aelodau sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio o fewn DPOs.

Mae'r grŵp llywio yn amrywiol o ran nodweddion amrywiol, gan gynnwys daearyddiaeth, ethnigrwydd a rhywioldeb. Mae gan bron pob aelod o'r grŵp llywio brofiad personol o anabledd neu gyflyrau iechyd hirdymor, ochr yn ochr â phrofiad o ddatblygu polisi, eiriolaeth, darparu gwasanaethau, cyflogaeth, ymchwil, undebau llafur, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Mae aelodaeth y grŵp llywio fel a ganlyn:

- Sharon Brennan



Mae Sharon Brennan yn dod ag arbenigedd mewn dulliau person-ganolog o newid strategol yn y system iechyd a gofal. Mae ei rolau blaenorol yn

cynnwys Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol yn National Voices; clymblaid o elusennau iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar brofiad byw ac anghydraddoldebau iechyd ac yn cynghori'r Adran Drafnidiaeth ar hygyrchedd fel aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Drafnidiaeth Pobl Anabl.

- Dr Clenton Farquharson CBE



Mae Dr Clenton Farquharson yn dod â mwy na 25 mlynedd o brofiad fel eiriolwr cenedlaethol dros hawliau anabledd, cyd-gynhyrchu, a chyfiawnder cymdeithasol. Fel Cyfarwyddwr Cyswllt yn Think Local Act Personal, cyn Ymddiriedolwr Disability Rights UK, ac aelod o fwrdd y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi), mae Clenton yn helpu i lunio strategaethau arloesol sy'n cryfhau hygyrchedd, cyd-gynhyrchu a chynhwysiant.

- Syr Stephen Timms



Mae Syr Stephen Timms yn dal swydd y Gweinidog Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). O rolau

gweinidogol blaenorol, ac fel cyn Gadeirydd y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau, mae Syr Stephen wedi datblygu gwybodaeth arbenigol o'r materion sy'n wynebu pobl anabl.

- Dr Mark Brookes MBE



Mark Brookes yw Arweinydd Eiriolaeth Dimensions UK. Mae ganddo fwy na 30 mlynedd o brofiad mewn eiriolaeth gyhoeddus dros bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth ac ymgyrchu yn erbyn troseddau casineb. Mae Mark yn gweithio gyda Sefydliad Churchill, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Bwrdd Cynghori'r GIG, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Gartref, a heddluoedd y DU.

- George Fielding BEM



Mae George Fielding yn eiriolwr hawliau anabledd sydd wedi gweithio'n genedlaethol ar draws llawer o wasanaethau cyhoeddus, gydag arbenigedd gweithredol mewn gwaith ieuenctid, gofal cymdeithasol, ac adeiladu gallu cymunedol. Mae'n gyd-sylfaenydd Insightful Disability. Yn flaenorol, mae wedi cyd-sefydlu dau ddarparwr gofal cymdeithasol a reoleiddir gan y CQC wrth gychwyn a datblygu tri mudiad cymdeithasol dan arweiniad ieuenctid, gan weithio i ddatblygu arferion gorau rhwng cenedlaethau mewn newid cymdeithasol. Mae'n gynghorydd anweithredol i dri chwmni buddiannau cymunedol sy'n arbenigo mewn cyd-gynhyrchu.

- Tara Flood



Mae Tara Flood yn ymgyrchydd hawliau anabledd hirdymor sydd wedi gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth Cyd-gynhyrchu ym Mwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham. Mae hi'n hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd a dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Sydd ag Anableddau, gan weithio gyda thrigolion i ysgogi newid polisi ac ailgynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel leol.

- Dr Mark Fosbrook PLY



Mae Mark Fosbrook yn athletwr Paralympaidd wedi ymddeol sy'n dod â'i brofiad byw ei hun ac yn tynnu ar wybodaeth gan eraill yn gyson trwy feddylfryd sy'n canolbwyntio ar berson, sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n canolbwyntio ar atebion. Ar hyn o bryd mae'n Rheolwr Cynhwysiant Anabledd yn Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr sy'n arwain ar wneud Gorllewin Canolbarth Lloegr yn Ranbarth Enghreifftiol i Bobl Anabl trwy gydgynhyrchu i wella gwasanaethau, newid systemau a dylanwadu ar agweddau ar draws swyddi, teithiau, cartrefi, twf ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

- Ben Geiger



Mae Ben Geiger yn Athro yn King’s College Llundain, sy'n dod ag arbenigedd academaidd yn ogystal â phrofiad o ddatblygu polisïau (gan gynnwys o fewn DWP) a chyd-gynhyrchu. Ar hyn o bryd mae'n arwain y prosiect Profiadau Lles (sy'n cymharu sut mae'n teimlo i hawlio budd-daliadau mewn pum gwlad) a chyn hynny cyd-arweiniodd yr astudiaeth ymateb cyflym fawr o fudd-daliadau yn ystod COVID-19.

- Katrina Gilman



Mae Katrina Gilman yn eiriolwr angerddol dros gydraddoldeb anabledd, gan dynnu ar brofiad byw o anableddau lluosog a'i rôl fel gofalwr. Ar ôl 25 mlynedd fel aelod o staff yr heddlu lle bu'n gweithio'n agos gydag aelodau anabl o'r gymuned, mae Katrina bellach yn gweithio i chwalu rhwystrau a hyrwyddo tegwch, hygyrchedd a chyfleoedd - gan yrru newid sy'n grymuso pobl anabl i ffynnu.

- Jean-André Prager



Mae Jean-André Prager yn Uwch Gymrawd yn Policy Exchange ac yn Gyfarwyddwr yn Flint Global sydd â chefndir polisi helaeth ym maes PIP a materion anabledd ehangach. Cyn hynny, roedd yn Gynghorydd Arbennig y Prif Weinidog yn cwmpasu DWP rhwng 2018 a 2024.

- Dr Lucy Reynolds



Mae Dr Lucy Reynolds yn entrepreneur cymdeithasol, siaradwr cyhoeddus ac eiriolwr hawliau anabledd. Sylfaenydd We Are All Disabled CIC a Chadeirydd Disability North, mae'n hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol at anabledd, gan ddefnyddio profiad byw ac ymchwil academaidd i herio canfyddiadau a sbarduno newid diwylliannol cynhwysol.

- Dr Felix Shi



Mae Dr Felix Shi yn dod â phrofiad byw fel academydd sy'n anabl, ochr yn ochr â mewnwelediadau cymharol i bolisi anabledd ar draws sawl cyd-destun cenedlaethol. Fel cyn-aelod o fwrdd Anabledd Cymru ac aelod presennol o Grŵp Mynediad Arfon, mae Felix yn gweithio i gysylltu llunwyr polisi â DDPOs ar lawr gwlad yng Nghymru.

- Dr Dharshana Sridhar



Mae Dr Dharshana Sridhar yn Bennaeth Materion Cyhoeddus yn y Gymdeithas Anafiadau Asgwrn Cefn, sy'n cynrychioli lleisiau pobl sydd ag anafiadau llinyn asgwrn cefn yn genedlaethol. Gyda phrofiad byw fel gofalwr hirdymor ac arbenigedd helaeth Llywodraeth y DU a pholisi rhyngwladol, mae'n gweithio i lunio polisi nawdd cymdeithasol teg a hyrwyddo hawliau, urddas ac annibyniaeth pobl anabl a chymunedau ymylol.

- Phil Stevens



Phil Stevens yw Prif Weithredwr Disability Action Haringey a Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Disability Action yn Islington. Mae'n arweinydd sy'n anabl gyda phrofiad helaeth mewn eiriolaeth, polisi a datblygu strategol dan arweiniad defnyddwyr, gan weithio i hyrwyddo hawliau, mynediad a chynhwysiant ar gyfer digwyddiadau byddar a chynhwysol i bobl anabl ledled Llundain.

- Leila Talmadge



Mae Leila Talmadge yn rheolwr prosiect a dylunydd awtistig a dyslecsig. Fel cyn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr elusen Daytrippers, a ddarparodd ddigwyddiadau cynhwysol i bobl ifanc anabl yn y DU, a chyn Gyfarwyddwr Datblygu Gwybodaeth Awtistig yn yr Alban, mae hi'n dod ag arbenigedd mewn creu mannau cynhwysol.